**Iesu**

Er maint yw chwerw boen y byd,
Mi rof fy mryd ar Iesu;
Ac er pob cystudd trwm a loes,
Mi dreulia'm hoes i'w garu.

Ni welais gyfaill dan y sêr
Mor dyner ag yw'r Iesu;
'Rwy'n penderfynu treulio'm hoes
I ddwyn ei groes dan ganu.

Ni theimlais ddim gofidiau dwys,
Wrth droi fy mhwys ar Iesu;
Am hyn dymuna'm henaid fod
Yn barod i'w wasanaethu.

Ymhob rhyw gyfyngderau blin,
Caf laeth a gwin gan Iesu;
Mae'n ennill serch fy enaid gwan
O bob rhyw fan i'w garu.

Yn nyfnder chwerw boen a chur
Gwiw gysur gaf gan Iesu;
O'r llwch cyfoda'm hynaf Frawd
Fy enaid tlawd i fyny.

***Ieuan Gwynedd***

Gwrandäwr Gweddi
Minnau blygaf yn grynedig
Wrth dy orsedd rasol Di,
Gyda hyder gostyngedig
Yn haeddiannau Calfari:
Dyma sylfaen
Holl obeithion euog fyd.

***R. M. Jones (Meigant)***